# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 17EG CHWEFROR, 2022**

Lleoliad

**ZOOM**

**Cysylltwch gyda ni i gael cysylltiad cyhoeddus i'r cyfarfod.**

Pwynt Cyswllt

**Ffion Bryn Jones**

**Ffionbrynjones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 9 Chwefror 2022)

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Gwynfor Owen | Annwen Daniels |
| Annwen Hughes | Linda Ann Jones |
| Olaf Cai Larsen | Judith Mary Humphreys |
| Edgar Wyn Owen | Mair Rowlands |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Anne Lloyd Jones | Hefin Underwood |
| Eryl Jones-Williams | Sedd Wag |

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Anwen J. Davies

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd Dylan Bullard

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Dewi Owen

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

I nodi unrhyw eitemau sydd yn fater o frys yn nhyb y cadeirydd er mwyn eu hystyried.

**4. COFNODION** I ddilyn

Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2021 yn cael eu harwyddo fel rhai cywir

**5. DIWEDDARIAD AR ETHOLIADAU MAI 2022** 4 - 9

Cyflwyno diweddariad ar y gwaith paratoi ar gyfer Etholiad Llywodraeth Leol, Mai 2022.

**6. AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH** 10 - 11

Cyflwyno diweddariad o'r camau gweithredu i'r Pwyllgor.

**7. DIWEDDARIAD AR GYFARFODYDD HYBRID** 12 - 13

Cyflwyno diweddarid ar drefniadau cyfarfodydd yn unol â Rhan 3 o'r Ddeddf uchod – cyfarfodydd Hybrid.

**8. CALENDR CYFARFODYDD** 14 - 16

Argymell calendr dyddiadau ar gyfer cynnal pwyllgorau 2022/23 i'r Cyngor Llawn.

**9. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AC UWCH GYFLOGAU** 17 - 19

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau ar yr argymhelliad ar gyfer rolau i dderbyn uwch gyflogau yn 2022/23.

**10. ADRODDIAD PERFFORMIAD TÎM GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH** 20 - 21

Diweddaru'r Pwyllgor ar berfformiad y Tîm.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **DYDDIAD** | 17 Chwefror 2022 |
| **TEITL** | Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno diweddariad ar y gwaith paratoi ar gyfer Etholiad Llywodraeth Leol, Mai 2022 |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth. |
| **AWDUR** | Annes Sion<br>Arweinydd Tîm Democratiaeth |

RHAGAIR

1. Rydym oll yn ymwybodol fod etholiadau Llywodraeth Leol yn cael eu cynnal ym mis Mai 2022. Yn sgil hyn mae cryn waith paratoi – gennych chi fel aelodau etholedig, gan y grwpiau gwleidyddol, yn ogystal a gennym ni fel swyddogion.

2. Fel y gwyddoch mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn, ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad o'r cynlluniau drafft sydd eisoes mewn lle a'r gwaith pellach sydd i'w gyflawni dros y misoedd nesaf i baratoi at yr Etholiad ym mis Mai a'r cyfnod yn syth ar ôl hynny.

3. <u>Sesiynau i ddarpar ymgeiswyr</u>
   Rydym eisoes wedi cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth fel rhan o'r paratoadau ar gyfer yr etholiad a byddwn yn ail redeg yr ymgyrch ddiwedd mis Chwefror. Yn ogystal byddwn yn cynnal 2 sesiwn ar gyfer darpar ymgeiswyr a fydd yn gyfle iddynt dderbyn gwybodaeth am y broses enwebu ynghyd a derbyn gwybodaeth am rôl Cynghorydd. Bydd y sesiynau yma sy'n cael eu cynnal ddiwedd mis Chwefror yn anffurfiol ac yn gyfle i unrhyw un sydd â diddordeb ofyn cwestiynau. Bydd cyfle i'r Is-Grŵp Etholiad roi eu barn am y wybodaeth fydd yn cael ei rannu gyda'r darpar ymgeiswyr cyn i'r sesiynau gael eu cynnal.

4. <u>Diwrnod Croeso</u>
   Mae'r trefniadau cychwynnol wedi eu gwneud i dynnu amserlen at ei gilydd ar gyfer diwrnod Croeso Cynghorwyr. Mae'r trefniadau drafft wedi eu llunio yn sgil y sylwadau dderbyniwyd gennych chi fel Cynghorwyr yn dilyn dyddiau Croeso gynhaliwyd yn 2017. Mae'r amserlen yn fras i'w gweld isod:

   > Bore: Croeso a chyflwyniadau am y Cyngor, Cefnogaeth i Gynghorwyr ac esboniad o drefniadau Democratiaeth y Cyngor
   >
   > Prynhawn: Sesiynau mewn grwpiau llai am y cod ymddygiad ac arwyddo i dderbyn y swydd, tynnu llun a cyfarpar technoleg gwybodaeth.

   Ar hyn o bryd bwriedir cynnal y ddyddiau croesawu yn yr wythnos sydd yn dilyn yr etholiad. Byddant yn cael eu rhaglennu dros ddeuddydd fel bod modd rhannu yr aelodau i gyd-fynd a rheoliadau covid.

5. Mae rhaglen ddrafft o anwytho pellach a hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn gyntaf i'w gweld yn **Atodiad 1**.

6. <u>Is-Grŵp Etholiad</u>

Llyfryn Aelodau

Yn ôl yn 2017 a penderfynwyd peidio rhoi pecyn gwybodaeth i Gynghorwyr yn ystod y dyddiau anwytho er mwyn cryfhau'r neges fod Cyngor Gwynedd yn Gyngor sy'n anelu at fod yn ddi bapur. Mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ac yn parhau i anelu at fod yn ddi bapur, fodd bynnag, wrth adlewyrchu ar y gwersi a ddysgwyd o 2017 a gwrando ar sylwadau Cynghorwyr credwn fod budd mewn creu llyfryn cryno i Aelodau ar ddechrau'r tymor. Math o gyfeirlyfr sydd dan sylw, yn cyflwyno gwybodaeth angenrheidiol am y Cyngor, Pwyllgorau, cyflogau a chysylltiadau defnyddiol, gan gyfeirio'r Cynghorwyr at lle i gael hyd i mwy o wybodaeth.

7. Datblygwyd drafft o'r llyfryn dros y misoedd diwethaf, a chafwyd trafodaeth ar y cynnwys yn yr Is-Grŵp Etholiad. Bellach mae addasiadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth wedi eu ymgorffori yn y llyfryn, ac fe fydd yn cael ei rannu i'r holl aelodau yn y dyddiau Croeso.

8. Eitemau Is-Grŵp i'r dyfodol

Dros y misoedd nesaf bydd yr Is-Grŵp yn parhau i gyfarfod i drafod rhai o'r materion sydd i'w gweld isod:

- Sleidiau i'r sesiynau darpar ymgeiswyr
- Tudalen Croeso i'r Mewnrwyd Aelodau ar gyfer y cyfnod yn syth yn dilyn yr etholiad
- Unrhyw elfen arall o'r gwaith paratoi ble rydym yn teimlo fod angen mewnbwn Cynghorwyr.

**9. PENDERFYNIAD A GEISIR**

- **Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth**



Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

## Hyfforddiant Aelodau - Teitlau am y flwyddyn i ddod (Mai 2022)

| Pryd? | Teitl | Maes gwaith | Cyfrwng | Perthnasol i:- |
|---|---|---|---|---|
| DYDDIAU CYNTAF | DIWRNOD CROESO | Croeso i'r Cyngor:<br>Cyflwyniad cryno am Gyngor Gwynedd gan gynnwys son am Ffordd Gwynedd a Rôl y Gymraeg. | Cyflwyniad (rhithiol neu wyneb i wyneb). | Holl Aelodau |
| | | Cyflwyniad i Wynedd – Cwis Syml | Fel uchod | Holl Aelodau |
| | | Côd Ymddygiad – Trosolwg ac Arwyddo | Fel uchod | Holl Aelodau |
| | | Sut mae'r Cyngor yn gweithio | Fel uchod | Holl Aelodau |
| | | Cefnogaeth i Aelodau | Fel uchod | Holl Aelodau |
| | | Materion ymarferol (cyflogau, Hunanwasanaeth, Mewnrwyd Aelodau ayyb) | Fel uchod | Holl Aelodau |
| | | Yn ystod y dydd bydd hefyd gyfle i gael :-<br>• cymorth TG/dewis neu dderbyn teclyn, arwyddo am dderbyn swydd,<br>• ymuno â grwp gwleidyddol,<br>• tynnu llun,<br>• holi am fwy o wybodaeth gan Tîm Democratiaeth a'r Tîm Dysgu a Datblygu<br>• Y System Gyfieithu – addysgu Aelodau newydd sut mae defnyddio'r system gyfieithu – ystyried *etiquette* | Fel uchod | Holl Aelodau |
| | | | | |
| | CYFLWYNIAD I GYFARFODYDD Y CYNGOR | - Beth i'w ddisgwyl<br>- Sut fedrent baratoi eu hunain (darllen adroddiadau ayyb) | Rhithiol/wyneb i wyneb | Aelodau Newydd |
| MIS CYNTAF | BETH SY'N GWNEUD CYNGHORYDD DA? | Modiwl e-ddysgu neu gyflwyniad.<br>Cael aelodau profiadol i siarad am eu profiadau a'r problemau / anawsterau Tips ar gyfer cyfathrebu gydag Etholwyr, sut i gyfathrebu trwy gyfryngau cymdeithasol ayyb | Rhithiol / wyneb i wyneb / Modiwl e ddysgu<br>Recordio sesiynau a'u gosod ar y Fewnrwyd | |
| | CYFLWYNIAD GAN BENAETHIAID ADRANNAU'R CYNGOR | Trosolwg o gyfrifoldebau'r Adrannau a chyfle i Aelodau holi cwestiynau | Rhithiol / wyneb i wyneb<br>Recordio sesiynau a'u gosod ar y Fewnrwyd | |
| | PWYLLGORAU CYNLLUNIO /SAFONAU / TRWYDDEDU | Y Pwyllgor Cynllunio – aelodau'r pwyllgor | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau'r Pwyllgor |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Y Broses Gynllunio – Sesiwn ar gyfer Aelodau sydd gyda eitemau'n codi mewn Pwyllgorau yn eithaf buan<br><br>Cyflwyniad i Gynllunio – Sesiwn i holl Aelodau | Rhithiol / wyneb i wyneb<br><br>Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau penodol<br><br>Holl Aelodau |
| | ASESIAD GWEITHFAN | Asesu gweithfan yn y cartref trwy holiadur/modiwl | Rhithiol | Ar gael i bawb, ac yn syth |
| | DELIO EFO GWYBODAETH AM BOBL : EICH CYFRIFOLDEB FEL AELOD | Deall goblygiadau cyffredinol y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018<br>Deall gofynion penodol y Ddeddf<br>Deall sut i gydymffurfio a'r Ddeddf | Modiwlau e-ddysgu yn gyntaf. Sesiwn rhithiol i ddilyn | Aelodau Newydd a unrhyw Aelod sydd heb gwblhau'r teitl |
| | | | | |
| TRI MIS CYNTAF | COD YMDDYGIAD | Sesiwn mwy manwyl yn dilyn y cyflwyniad/crynodeb yn yr Anwytho<br>"Re-cap yn flynyddol" | Rhithiol / wyneb i wyneb | Holl Aelodau |
| | CADEIRIO CYFARFODYDD (Arwain a Chyfrannu at Bwyllgorau Effeithoil) | Hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion | Rhithiol / wyneb i wyneb | Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion |
| | DIOGELWCH PERSONOL | Gweithio'n Unig | Rhithiol / wyneb i wyneb | Holl Aelodau |
| | DEALL GWYNEDD – GWYBODAETH AM Y SIR | Deall gwybodaeth a ffeithiau am y Sir gan gynnwys canlynaidau'r Cyfrifiad | Rhithiol / wyneb i wyneb | Holl Aelodau |
| | DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT | Deall goblygiadau'r Ddeddf i Wynedd | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau Newydd gyda chroeso i Aelodau sy'n dychwelyd |
| | DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL | Deall goblygiadau cyffredinol y Ddeddf a deall gofynion penodol y Ddeddf o'ch safbwynt chi fel Cynghorydd | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau Newydd gyda chroeso i Aelodau sy'n dychwelyd |
| | PWYLLGORAU | Hyfforddiant Pwyllgorau Craffu, Archwilio, Trwyddedu | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau'r Pwyllgorau |
| CHWE MIS CYNTAF | SGYRSIAU 1 : 1 –<br>Holl Aelodau Newydd | Cyfle am sgwrs 1:1 i'r holl aelodau newydd | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau Newydd |
| | SGYRSIAU 1 : 1<br>Aelodau Newydd gyda'i gilydd | Cyfle am sgwrs anffurfiol i'r holl aelodau newydd gyda'i gilydd – cyfle i holi cwestiynau (gofyn amdanynt o flaen llaw) a rhannu profiadau hyd yma | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau Newydd |
| | CYLLIDEB Y CYNGOR | Deall egwyddorion cyllido, rheolaeth ariannol a chyfrifo mewn awdurdod lleol<br><br>Deall termau cyllidol, technegau cyllidebol/ariannol, a rôl swyddogion/Aelodau yng Nghyngor Gwynedd | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau Newydd |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| HYD AT 12 MIS CYNTAF | FFORDD GWYNEDD<br><br>Sesiwn ar y Weledigaeth<br><br>Trosolwg (sesiwn ½ diwrnod)<br><br>(cynnig dyddiadau bob ¼) | Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr)<br><br>Geraint Owen a Carey Cartwright | Rhithiol / wyneb i wyneb<br><br>Rhithiol / wyneb i wyneb | Holl Aelodau<br><br>Holl Aelodau |
| | CYFRYNGAU CYMDEITHASOL | Sut i wneud i gyfryngau cymdeithasol weithio i Gynghorwyr, pa fath o bethau i'w rhannu, sut i beidio ymddwyn ar gyfryngau cymdeithasol, bwlio ayyb. | Rhithiol / wyneb i wyneb / Modiwl e-Ddysgu | Aelodau Newydd ac unrhyw Aelod arall fyddai'n dymuno |
| | ARWAIN YN DDIOGEL | Deall gofynion cyfreithiol y Cyngor o ran iechyd a diogelwch:<br><br>Yr elfen '*de-escalation'*<br><br>Ystyried trais o bob math | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau Newydd ac Aelodau sydd heb wneud yr hyfforddiant |
| | CYDRADDOLDEB | Eich cyfrifoldeb fel Aelod Etholedig ym maes cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau Newydd ac Aelodau sydd heb wneud yr hyfforddiant |
| | DIOGELU PLANT AC OEDOLION | Eich cyfrifoldeb fel Aelod | Rhithiol / wyneb i wyneb / Modiwl e-Ddysgu | Aelodau Newydd ac Aelodau sydd heb wneud yr hyfforddiant |
| | RHIANTU CORFFFORAETHOL | Eich cyfrifoldeb fel Aelod | Rhithiol / wyneb i wyneb / Modiwl e-Ddysgu | Aelodau Newydd ac Aelodau sydd heb wneud yr hyfforddiant |
| | ROL Y GYMRAEG YN Y GYMUNED | Gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb y Cyngor i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y Sir a beth gallan nhw ei wneud i helpu hynny y neu cymunedau | Rhithiol / wyneb i wyneb | Aelodau Newydd ac Aelodau sydd heb wneud yr hyfforddiant |
| | DELIO GYDA'R WASG | Sesiwn ymarferol iawn sy'n rhoi profiad i Aelodau o wneud cyfweliadau radio a theledu. Y mwya maent yn wybod am ofynion y Cyfryngau a'r hyn sydd o'u blaenau, y gorau fyddent yn perfformio pan ddaw hi yn gyfweliadau go iawn. | Wyneb i wyneb | Cynnig i bawb. Trefnu ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb |
| | | | | |
| AR GAIS | HYFFORDDIANT TG | Sesiynau Un i Un | Rhithiol / wyneb i wyneb | Ar gyfer y rhai sydd angen |
| | ASESIAD GWEITHFAN | Asesu gweithfan yn y cartref trwy holiadur/modiwl | Rhithiol | Ar gael i bawb, ac yn syth |
| | CYFRYNGAU CYMDEITHASOL | Sut i wneud i gyfryngau cymdeithasol weithio i Gynghorwyr, pa fath o bethau i'w rhannu a peidio rhannu, sut i beidio ymddwyn ar gyfryngau cymdeithasol bwlio ayyb. | Rhithiol / wyneb i wyneb | Ar gael i bawb sy'n dymuno cael sesiwn un i un |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | diogelwch personol: delio hefo negeseuon treisgar / bygythiol ar-lein | | |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 17 Chwefror 2022 |
| **Pwnc** | Amrywiaeth mewn Democratiaeth |
| **Argymhelliad** | Cyflwyno diweddariad o'r camau gweithredu i'r Pwyllgor. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |

**Diweddariad.**

1. Mae'r Pwyllgor wedi arwain ar y maes o geisio annog mwy o amrywiaeth mewn Democratiaeth ers rhai blynyddoedd bellach, ac mae gwaith yn mynd ymlaen yn y maes yn barhaus. Cyhoeddwyd Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd ym mis Hydref 2021 a'r rhaglen waith wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2021.

2. Mae nifer o elfennau'r rhaglen waith yn ymwneud â'r paratoadau ar gyfer yr etholiad. Un elfen yw annog mwy o bobl o amrywiol gefndiroedd i sefyll yn yr etholiad, ac elfen arall yn edrych ar y trefniadau sydd mewn lle i anwytho a chroesawu Cynghorwyr newydd yn dilyn yr etholiad. Mae adroddiad arall wedi ei gyflwyno i'r pwyllgor yn eich diweddaru ar yr elfennau hyn.

3. Materion eraill sy'n derbyn sylw yn gyfredol yw llunio Holiadur amrywiaeth/cydraddoldeb. Bydd yr holiadur yn cael ei rannu gyda holl Aelodau cyfredol y Cyngor er mwyn casglu tystiolaeth (dienw) am amrywiaeth yn y Cyngor presennol. Bydd yr holiadur yn cael ei ail adrodd ar ddechrau'r tymor nesaf fel bod gennym ddata cadarn i'w gasglu o hyn allan. Bydd hyn yn gosod sail tystiolaeth i unrhyw waith pellach sydd angen ei wneud. Gwirfoddol fydd llenwi'r holiadur ond rydym yn annog pawb i wneud hynny.

4. Yn ogystal, mae llawer iawn i'w ddysgu gan Gynghorwyr sy'n penderfynu peidio sefyll eto. Mae gwaith cenedlaethol yn digwydd yn y maes yma fydd yn adrodd ar wersi cyffredinol ar draws Cymru maes o law. Fodd bynnag, er mwyn dysgu mwy am beth sydd wedi bod yn llwyddiant, ysgogiad i sefyll fel Cynghorydd yn y lle cyntaf, a beth yw'r rhwystrau a rhesymau pam nad yw Aelod yn sefyll eto, credir bod budd i gynnal ymarferiad o'r fath yma yng Ngwynedd hefyd. Mae'n debygol mai ar ffurf holiadur y byddwn yn casglu'r wybodaeth, gan adrodd gwersi ar gyfer Gwynedd fydd eto yn cynorthwyo i baratoi ar gyfer Cynghorwyr y dyfodol.

5. Ers oddeutu 18 mis bellach, rydym yn gweithredu ar gynnal sesiynau penodol ar gyfer Merched sy'n Gynghorwyr. Mae'r sesiynau anffurfiol (sgwrs dros baned) wedi cynnig gofod diogel lle mae'r Cynghorwyr wedi cael cyfle i

- gefnogi ei gilydd a chymharu profiadau a dysgu oddi wrth y naill a'r llall
- drafod rhwystrau neu faterion sy'n eu poeni a chynnig datrysiadau.

6. Mae'r holl drafodaethau wedi digwydd o fewn amgylchiadau diogel ac anwleidyddol. Rydym eisioes wedi adrodd i'r Pwyllgor ar rai o'r materion cyffredinol sydd wedi eu codi gan y grŵpac mae'r materion yn cael eu hystyried er mwyn gwella trefniadau'r Cyngor. Y prif themau oedd yn codi o'r sgwrs ddiwethaf oedd
    - cyfrifoldebau ychwanegol gan ferched sy'n Gynghorwyr ee paratoadau ar gyfer y Nadolig yn tueddu i ddisgyn yn fwy beichus ar ferched, a hynny tra'n ceisio cario ymlaen gyda dyletswyddau fel cynghorydd hefyd
    - diffyg dealltwriaeth y cyhoedd o rôl Cynghorwyr a'r gydnabyddiaeth ariannol bychan sy'n cael ei dderbyn
    - cyfleoedd i fod yn gwneud gwahaniaeth yn y gymdeithas ee grantiau i gynnal digwyddiadau gyda phobl hŷn a gwaith gyda'r banciau bwyd a chynlluniau bwyd yn y gymuned

7. Mae'n amser synhwyrol bellach i ystyried os oes budd wedi dod o'r sesiynau hyn ac a ddylid parhau i gynnal sesiynau o'r fath yn nhymor y Cyngor newydd er mwyn cynnig yr un math o gefnogaeth i ferched sy'n Gynghorwyr o fis Mai ymlaen. Mae ymateb cychwynnol yn dangos cefnogaeth i'r cyfeiriad yma.

**Argymhelliad**

8. Gofynnir i'r Pwyllgor am

    a. unrhyw sylwadau ar y diweddariad a gyflwynwyd

    b. cefnogaeth i sefydlu trefniadau anffurfiol ar gyfer Merched sy'n gynghorwyr yn dilyn etholiad Mai 2022

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 17 Chwefror, 2022 |
| **Teitl yr Eitem:** | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |
| **Pwrpas:** | Cyflwyno diweddarid ar drefniadau cyfarfodydd yn unol â Rhan 3 o'r Ddeddf uchod – cyfarfodydd Hybrid. |
| **Swyddog (ion) cyswllt:** | Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth a Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |

## Adroddiad i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

- **Argymhellir bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn derbyn yr droddiad er gwybodaeth.**

**2. DATBLYGIADAU**

**PENDERFYNIAD Y CYNGOR – 02/12/2021**

1. Bu i'r Cyngor llawn fabwysiadu trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Cyngor i'r dyfodol yn ystod cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 2il o Ragfyr, 2021. Penderfynwyd y bydd cyfarfodydd y Cyngor Llawn, Pwyllgor cynllunio, a phwyllgorau Craffu yn cael eu cynnal o leoliad (cyfarfod yn hybrid), gyda gweddill y pwyllgorau yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol. Bydd cyfarfodydd y Cabinet hefyd yn cael eu cynnal o leoliad (yn hybrid) – gyda'r Cabinet wedi dod i'r penderfyniad yn eu cyfarfod ar y 30ain o Dachwedd, 2021.

**2.** Rhoddwyd y cyfrifoldeb ar gyfer gweithredu a phennu'r dyddiad gweithredu i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, a hynny mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth a Chadeirydd y Cyngor.

3. Yn ogystal, roedd rhaid i unrhyw drefniadau fod o ganlyniad i godi'r cyfyngiadau ynghylch covid-19. Yn ystod wythnosau cyntaf 2022 mae'r sefyllfa gyda'r cyfyngiadau yn sgil covid-19 wedi newid yn aml a ninnau wedi wynebu cyfarwyddyd i

beidio mynychu'r swyddfeydd am rai wythnosau. Mae hyn wedi golygu rhai wythnosau o oediad yn sgil methu mynychu'r siambrau i brofi a dysgu am y system hybrid newydd tra roedd y cyfyngiadau yn eu lle.

**DATBLYGIADAU TECHNEGOL**

4. Fodd bynnag, rydym wedi bwrw ymlaen gyda datblygiadau ar yr ochor dechnegol, ond rydym wedi wynebu heriau ar yr un pryd. Mae darpariaeth mewn lle ac wedi ei brofi gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth sy'n gefnogol i'r datrysiadau. Bydd yn golygu y gall Gynghorwyr gymryd rhan yn y cyfarfodydd hybrid o'r siambr neu o bell.

5. Un peth sydd wedi ei amlygu o gynnal yr ymarferion hyd yma yw fod y profiad am fod YN WAHANOL i'r hyn oedd yn digwydd cyn covid. Mae mwy o faterion i'w hystyried wrth gadeirio cyfarfod hybrid. Mae'n rhaid cael trefn benodol a pharch i'r trefniadau hynny gan bawb ar lawr y siambr ac sy'n ymuno o bell er mwyn i gyfarfod o bwyllgor ddigwydd yn hwylus.

**PROTOCOL CYFARFODYDD**

6. Yn ychwanegol i'r datblygiadau technegol, mae'r protocol ar gyfer cynnal cyfarfodydd rhithiol yn cael ei ddiweddaru a phrotocol ar gynnal cyfarfodydd hybrid yn cael ei ddatblygu. Mae'r elfen yma yn angenrheidiol i'w gael mewn lle cyn symud ymlaen â chynnal cyfarfodydd hybrid o un o bwyllgorau'r Cyngor.

**CAMAU NESAF**

7. Mae'r treialu sydd wedi ei gynnal hyd yma wedi amlygu fod cryn waith paratoi er mwyn sicrhau'r profiad gorau i'r holl ddefnyddwyr mewn cyfarfodydd hybrid. Bydd angen cynnal ymarferion pellach o'r trefniadau hybrid gan roi cyfle i swyddogion (tîm democratiaeth yn bennaf) i ddysgu am y trefniadau newydd ac ymgyfarwyddo â hwy. Yn ogystal, bydd yr amser treialu yn cael ei ddefnyddio i ddechrau hyfforddi aelodau a Chadeiryddion ar yr elfennau technegol o'r cyfarfodydd hyn a'r ymarfer da (elfennau meddal sydd angen ystyriaeth). Bydd hyn yn ein cynorthwyo i baratoi at hyfforddi Cynghorwyr a chadeiryddion newydd o fis Mai 2022 ymlaen.

Eitem 8

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth** |
| **DYDDIAD** | **17 Chwefror 2022** |
| **PWNC** | **Calendr Pwyllgorau 2022/23** |
| **PWRPAS** | **Argymell calendr dyddiadau ar gyfer cynnal pwyllgorau 2022/23 i'r Cyngor Llawn** |
| **AWDUR** | **Annes Sion**<br>**Arweinydd Tîm Democratiaeth** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynir y calendr o ddyddiadau pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2022/23 er eich sylwadau cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar y 3ydd o Fawrth.

1.2 Mae'r Calendr yn cynorthwyo'r Cyngor, ei Aelodau a'r cyhoedd i gynllunio ymlaen ar gyfer dyddiadau ac amseroedd prif gyfarfodydd y Cyngor.

1.2 Noder mai dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall sefyllfaoedd godi ble bydd angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu busnes y Cyngor.

1.3 Tra gwneir pob ymdrech i osgoi cynnal cyfarfodydd yn ystod gwyliau'r ysgol, nid yw hynny yn bosib ar bob achlysur os am sicrhau parhad gwasanaeth y Cyngor.

1.4 Ymgynghorwyd â swyddogion perthnasol a'r Parc Cenedlaethol Eryri ar fersiwn drafft y calendr pwyllgorau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro a chyfarfodydd eraill. Yn ychwanegol, rydym wedi ceisio sicrhau nad oes gwrthdaro gyda dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd er nad yw holl ddyddiadau 2022/23 yn wybyddus eto.

## 2.0 CALENDR PWYLLGORAU 2022/23

2.1 Gweler yr atodiad ar gyfer dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2022/23

2.2 Noder fod dyddiadau'r holl gyfarfodydd wedi llithro ychydig o gymharu â blwyddyn arferol yn sgil Etholiad Llywodraeth Leol sy'n cael ei gynnal ar 5 Mai 2022. O ganlyniad ni fydd cyfarfod Cyntaf y Cyngor tan yr 19 Mai 2022. Bydd hyn yn caniatáu i'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith drefnu a chynnal sesiwn anwytho i'r holl Aelodau cyn cyfarfod y Cyngor Llawn Blynyddol.

2.3 Yn ogystal, noder na chynhelir cyfarfod o unrhyw un o bwyllgorau'r Cyngor yn ystod mis Mai. Bydd hyn yn rhoi cyfle i fabwysiadu'r dyraniad seddau ar sail cydbwysedd gwleidyddol, i'r grwpiau gwleidyddol adnabod cynrychiolwyr i'r gwahanol seddau ac i'r aelodau dderbyn unrhyw hyfforddiant angenrheidiol cyn i'r pwyllgorau gael eu cynnal.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2022-23.

| 2022/23 | Amser cyfarfod | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR** | pm | 19* | 16 | | | | 6 | | 1 | | | 2 | | 4* |
| Cabinet | pm | | 7 / 28 | 19 | | 13 | 4 | 22 | 13 | 24 | 14 | 7/28 | 25 | |
| Pwyllgor Craffu – Addysg ac Economi | am / pm | | | 14 | | | 20 | | 8 | | 2 | 23 | | |
| Pwyllgor Craffu - Cymunedau | am / pm | | 23 | | | 15 | 27 | | | 19 | | 9 | | |
| Pwyllgor Craffu - Gofal | am / pm | | | 7 | | 29 | | 10 | | | 16 | | 20 | |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | am | | 9 / 30 | | | | 13 | 17 | | | 9 | | | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth | am / pm | | | 5 | | | | | | | | 16 | | |
| Pwyllgor Cynllunio | am / pm | | 6 | 4 | | 5 / 26 | 17 | 7 / 28 | 19 | 16 | 6 / 27 | 20 | 17 | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | am | | 17 | 22 | | 23 | 21 | | 2 | 20 | | 17 | | |
| Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | am | | 27 | | | 19 | | | 5 | | | | | |
| Pwyllgor Safonau | am | | | 11 | | | | 21 | | | 13 | | | |
| CYSAG | pm | | | 12 | | | | 29 | | | | 14 | | |
| Pwyllgor Iaith | am | | 20 | | | | 10 | | | 30 | | | 24 | |
| Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol | am | | | 21 | | | | | | | | | | |
| Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | am / pm | | 10 | 8 | | 16 | 14 | 18 | 16 | 27 | 17 | 24 | 21 | |
| Pwyllgor Pensiynau | pm | | 27 | | | 12 | | 24* | | 23 | | 27 | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog | yr hwyr | | | | | | 11 | | | | | 7 | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli | yr hwyr | | | | | | 18 | | | | | 14 | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi | am | | | | | | 25 | | | | | 21 | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw | am | | | | | | | 8 | | | | 28 | | |

*Cyfarfod Blynyddol.

Amser cyfarfod (yn ôl yr angen) **am** – bore **pm** – p'nawn **am/pm** – trwy'r dydd

**Dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, gall fod angen cyfarfodydd eraill er mwyn gweithredu busnes y Cyngor.**

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 17 Chwefror 2022 |
| **Pwnc** | Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau etholedig - uwch gyflogau ar gyfer 2022/23 |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau ar yr argymhelliad ar gyfer rolau i dderbyn uwch gyflogau yn 2022/23 |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones, Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith |

**Diweddariad.**

1. Cyflwynwyd adroddiad drafft y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i gyfarfod y pwyllgor ym mis Tachwedd 2021. Cyflwynwyd sylwadau i'r ymgynghoriad ar sail eich sylwadau.

2. Roedd yn fwriad gennyf i gadarnhau'r sefyllfa ar gyfer 2022/23 yn y cyfarfod yma, ond ni fydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi gan y Panel hyd ddiwedd Chwefror (wythnos yn cychwyn 22/02/22).

3. Fy mwriad nawr fydd cadarnhau'r newidiadau ar gyfer 2022/23 yn y newyddlen sy'n cael ei greu gan Gadeirydd y pwyllgor yn dilyn pob cyfarfod/ Bydd hyn yn ein gallu i godi ymwybyddiaeth yr holl Aelodau o'r penderfyniadau. Nid ydym yn rhagweld y bydd newidiadau o'r adroddiad drafft a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2021.

**Uwch gyflogau**.

4. Dyma'r cyfarfod olaf o'r pwyllgor cyn etholiad Llywodraeth Leol Mai 2022. Yn dilyn yr etholiad bydd angen cadarnhau'r rolau sydd i dderbyn uwch gyflogau ar gyfer 2022/23. Nid oes unrhyw newid wedi bod i'r rhestr rolau sydd yn derbyn uwch gyflogau ers rhai blynyddol.

5. I'ch atgoffa, telir yr uwch gyflogau fel a ganlyn yn gyfredol:

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- hyd at 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf *
- Cadeiryddion Pwyllgorau
  - Pwyllgor Craffu ( x3 )
  - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
  - Pwyllgor Cynllunio
  - Pwyllgor Trwyddedu (Canolog a Chyffredinol yn cael ei gyfrif fel un Pwyllgor)
  - Pwyllgor Pensiynau

* mae'n ofyn gan y Panel Annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol i neilltuo uwch gyflog i'r rôl

6. Roedd yr ymgynghoriad gan y Panel yn nodi na fyddai unrhyw newid i uchafswm yr uwch gyflogau y gellir eu pennu yng Ngwynedd. Fodd bynnag, mae peth newid ar gyfer 2022/23 a hynny yn sgil aelodaeth a chadeiryddiaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bydd yn rhaid penodi Cadeirydd i'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o blith yr Aelodau lleyg o Mai 2022 ymlaen.

7. O ganlyniad i'r gofyn i benodi Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o blith yr Aelodau lleyg ni fydd y rôl honno felly yn cael ei chynnwys yn y rhestr o uwch gyflogau sy'n cael eu cydnabod gan y Cyngor. Noder y bydd y Cadeirydd yn derbyn cydnabyddiaeth am y rôl yn unol â gofynion y Panel Annibynnol.

8. Yn hanesyddol, y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth sydd wedi argymell unrhyw newidiadau i'r Cyngor llawn eu mabwysiadu. Yn y sefyllfa sydd ohoni, mae'n debyg mai'r argymhelliad mwyaf synhwyrol i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Mai 2022 yw addasu'r rhestr uwch gyflogau a pheidio cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y rhestr. Mewn geiriau eraill cynnwys 17 rôl ar gyfer 2022/23 (fel a restrir isod).

9. Mae'n debyg y byddai'n synhwyrol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth adolygu'r rhestr yma'n llawn yn ystod 2022/23 i sicrhau fod y rolau cywir yn parhau i dderbyn y gydnabyddiaeth ariannol uwch ac adrodd unrhyw argymhelliad i'r Cyngor llawn ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

**Argymhelliad**

10. Mae aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn argymell i'r Cyngor llawn fod y rolau a ganlyn yn derbyn uwch gyflog am 2022/23, gan ofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth adolygu'r rhestr ar gyfer 2023/24.

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- hyd at 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf *
- Cadeiryddion Pwyllgorau
  - Pwyllgor Craffu ( x3 )
  - Pwyllgor Cynllunio
  - Pwyllgor Trwyddedu (Canolog a Chyffredinol yn cael ei gyfrif fel un Pwyllgor)
  - Pwyllgor Pensiynau

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth** |
| **DYDDIAD** | **17 Chwefror 2022** |
| **PWNC** | **Adroddiad Perfformiad y Tîm Gwasanaethau Democratiaeth** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru'r Pwyllgor ar berfformiad y Tîm.** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.** |
| **AWDUR** | **Annes Sion**<br>**Arweinydd Tîm Democratiaeth** |

1. Mae'r tîm yn awyddus i ddatblygu a sicrhau fod y gwasanaeth sydd ar gael i Gynghorwyr o'r safon gorau. Er mwyn gwneud hyn rydym yn edrych ar berfformiad ac yn adlewyrchu yn barhaus.

2. Rydym yn adrodd ar berfformiad I'r Aelod Cabinet fel rhan o drefniadau herio perfformiad yr adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Fodd bynnag, rydym o'r farn fod rôl i aelodau'r Pwyllgor hwn fod yn derbyn diweddariad o berfformiad a chael cyfle i leisio barn ar waith y Tîm.

3. Un o fesurau perfformiad pwysicaf y tîm yw i dderbyn eich adborth chi, sydd wedi bod yn cael ei fesur drwy Holiadur Bodlonrwydd. Bu i mi adrodd ar ganlyniadau a'r prif themâu a gododd o'r holiadur diweddaraf ym mis Hydref 2021. Yn arferol bydd holiadur arall yn cael ei anfon at yr holl Aelodau ym mis Medi a mis Mawrth.

4. Yn ogystal a'r cyfle i ddatgan eich barn drwy lenwi'r holiadur ddwy waith y flwyddyn, ym mis Hydref nodwyd ein bwriad i addasu ein trefniadau a siarad â detholiad o Gynghorwyr yn fisol. Rydym o'r farn fod trafodaethau agored o'r fath am roi mwy o wybodaeth i ni am y gefnogaeth sydd ar gael i chi fel Cynghorwyr.

5. Rydym wedi cychwyn arni ers rhai wythnosau, ac mae'r prif themâu sydd wedi codi hyd yma fel a ganlyn. Cysylltwyd yn benodol â dau Gynghorydd ynghylch eu presenoldeb gan eu hatgoffa o'r rheol 6 mis er mwyn sicrhau nad oeddent yn colli eu sedd trwy anwybodaeth. Diolchwyd i'r tîm am y cyswllt a bu i un aelod amlygu nad oedd wedi deall fod y rheol 6 mis yn parhau'n berthnasol tra bod cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol.

6. Thema arall sydd wedi dod i'r amlwg yw'r trefniadau ar gyfer cadw e-byst am faterion ward petai aelod ddim yn llwyddiannus yn etholiadau Mai 2022. Mae'r mater yn un allweddol bwysig ac felly rydym wedi cychwyn llunio arweiniad syml i'r holl aelodau ar y mater - mewn cyd-weithrediad a'r tîm Ymchwil a Gwybodaeth.

7. Mae'r tîm wedi bod yn rhagweithiol i sefyllfa aelodau penodol gan wneud trefniadau i Gynghorwyr sydd â chyswllt gwael i'r we i gael mynediad i ystafelloedd yn swyddfeydd y Cyngor er mwyn iddynt gael sicrwydd eu bod yn gallu bod yn bresennol mewn Pwyllgorau. Yn ychwanegol cysylltwyd â dau gynghorydd i wneud trefniadau Technoleg Gwybodaeth gwahanol iddynt gan eu bod wedi gwneud sylw wrth basio eu bod yn cael problemau.

8. Fel sydd wedi digwydd yn gyson ers cychwyn cynnal cyfarfodydd rhithiol, mae aelodau o'r tîm ar gael i gynorthwyo aelodau sydd wedi bod yn cael problemau cysylltu wrth ymuno â chyfarfodydd rhithiol.

9. Rhaid cofio ein bod yn gwasanaethu'r cyhoedd hefyd, ac rydym wedi derbyn rhai sylwadau sydd i'w gweld isod:
   - "Thanks both, much appreciated"
   - "So great to have these meetings livestreamed and available as recordings. great benefit to local democracy and holding our elected members to account. thank you"

10. Mesur pwysig arall sydd gennym yw'r canran o Hysbysiadau Penderfyniad sydd wedi eu cyhoeddi o fewn 5 diwrnod gwaith o gyfarfod pwyllgor. Mae cyhoeddi'r Hysbysiadau Penderfyniad yn galluogi trigolion Gwynedd i gael cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniadau yn gyflym ac yn welliant i'r hen drefn o ddisgwyl am gofnodion llawn i gael eu cyhoeddi maes o law. Dros y 3 mis diwethaf cyhoeddwyd 28 hysbysiad penderfyniad, gyda'r amserlen wedi llithro ddiwrnod ar gyfer 5 ohonynt.

11. CAMAU NESAF
    Bydd y tîm yn parhau i weithredu'r trefniadau newydd o gael sgwrs gyda Chynghorwyr i'w holi am eu sylwadau, yn ogystal a rhannu'r holiadur i'r holl aelodau. Byddwn yn adrodd yn gyson i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

**12. PENDERFYNIAD A GEISIR**

**Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.**